

BRO MORGANNWG

CYNLLUNDATBLYGULLEOL NEWYDD 2021-2036

MWYNAU

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP25



Crynodeb Gweithredol

- i. Pwrpas y papur hwn yw darparu manylion am sut mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ystyried y ddarpariaeth fwynau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036.
- ii. Mae Bro Morgannwg yn gyflenwr pwysig o galchfaen Carbonifferaidd at ddefnydd agregau cyffredinol yn ogystal ag i'w ddefnyddio mewn gweithgynhyrchu dur. Defnyddir calchfaen carbonifferaidd a Liasig hefyd ar gyfer gweithgynhyrchu sment. Yn ogystal â'r adnodd sylfaenol hwn, mae gan Bro Morgannwg adnodd agregau eilaidd helaeth ar ffurf Llundw Tanwydd Mâl (LITM/PVA) a Llundw Gwaelod Ffwrnais (LIGFf/FBA) sy'n weddill o Orsaf Bŵer Aberddawan sydd wedi'i dadgomisiynu.
- iii. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar Fwynau wedi'i nodi yn Rhifyn Polisi Cynllunio Cymru 12 Chwefror 2024 a chyfres gysylltiedig o Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau. Cyflwynir y sefyllfa ranbarthol ar gynllunio mwynau yn y Datganiadau Technegol Rhanbarthol (DTRh/RTS) ar gyfer 2il Adolygiad Gogledd a De Cymru (DTRh2/RTS2). Darperir rhagor o wybodaeth ategol yn adroddiadau Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (GARhDC/SWRAP) sy'n seiliedig ar arolygon a gwblhawyd gan weithredwyr mwynau.
- iv. Yn ogystal â'r sefyllfa ranbarthol, cyflwynodd yr DTRh2 ofyniad newydd i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ym mhob is-ranbarth gynhyrchu Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol (DGIRau/SSRCs) fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi pob Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r cydweithrediad is-ranbarthol yn galluogi addasiadau mewn dosraniadau a nodwyd yn yr DTRh2 o fewn yr is-ranbarth os yw ymchwiliadau manylach gan yr ACLlau yn nodi bod angen addasiadau o'r fath. Ar ôl cytuno arno, bydd DGIR yn aros yn weithredol nes y caiff ei ddisodli gan ofynion adolygiadau o'r DTRh yn y dyfodol, neu wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg sy'n cyfiawnhau newid.
- v. Mae Bro Morgannwg yn rhan o Is-ranbarth Dinas Caerdydd ynghyd ag awdurdodau lleol Caerdydd, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn unol â'r dosraniad ar gyfer Bro Morgannwg a nodir yn DTRh2 (fel y'i diwygiwyd gan lythyr eglurhad DTRh2 gan Lywodraeth Cymru ar 11 Tachwedd 2021) y dosraniad yw 17.05 miliwn tunnell. Mae'r DTRh2 yn nodi bod y gronfa wrth gefn bresennol a ganiateir ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd yn 18.73 miliwn tunnell o gerrig mâl, gwarged o 1.68 miliwn tunnell, sy'n golygu bod digon o ddarpariaeth feintiol bresennol i fodloni'r dosraniad DTRh2 a nodwyd.
- vi. Mae'r papur cefndir yn ystyried safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ar fwynau ac yn cynnig cyfres o bolisiâu sy'n ceisio galluogi echdynnu mwynau ychwanegol pe bai angen; diogelu adnoddau mwynau hysbys a seilwaith sy'n gysylltiedig â mwynau lle maent i'w cael, ac i sicrhau nad yw echdynnu mwynau yn achosi effeithiau amgylcheddol andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd neu ar amwynder lleol.



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

